

Datgloi Cerddoriaeth

Cyfarwyddyd i Arweinwyr Ysgolion am Addysgu Cerddoriaeth

(Datgloi Cerddoriaeth: Rhifyn Cymraeg, 15 Hydref 2020)

Mae rôl hanfodol cerddoriaeth a'r celfyddydau yn ehangach wrth gynnal iechyd meddwl, ymgysylltiad cymdeithasol, a dysgu i blant yn cael ei gydnabod yn fyd-eang, ar sail data gwyddonol o safon uchel. Mae'r rôl hon yn bwysicach yn awr, yn ystod argyfwng byd-eang, nag erioed, o ystyried yr heriau eang y mae plant a'u teuluoedd yn eu hwynebu. Ond mae'n hanfodol i weithgareddau gael eu hyrwyddo mewn ffordd ddiogel. Mae'r cyfarwyddyd a gyhoeddir yma yn rhoi argymhellion clir ac felly mae'n cael ei groesawu yn fawr.

Dr Daisy Fancourt, Coleg Prifysgol Llundain

Mae Cymdeithas Addysg Cerdd y Deyrnas Unedig – Music Mark yn gymdeithas pwnc ar gyfer cerddoriaeth ac yn sefydliad trwy aelodath i'r rhai sy'n rhoi addysg gerddorol ar draws y Deyrnas Unedig. Trwy ein rhwydwaith o dros 150 o Aelodau sy'n rhoi addysg cerdd, fel Gwasanaethau Cerdd, rydym wedi gallu dathlu a phledio achos darpariaeth gerdd mewn dros 6,500 o Ysgolion Music Mark.

Mae Music Mark a'i Aelodau yn deall bod ysgolion ac arweinwyr ysgolion yn dal dan straen yn ymdopi â gofynion agor yn llawn ac absenoldebau wrth i staff a disgyblion orfod hunanynysu. Nid oes unrhyw un yn disgwyl y bydd pethau yn ôl yn normal yn fuan. Cafodd y cyfnod clo effaith dramatig ar fywydau plant a phobl ifanc ac mae Music Mark yn eich annog i gynnwys cerddoriaeth a chelfyddydau creadigol yn eich cwricwlwm adfer, fel ffordd o'u helpu i setlo yn ôl mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae'r gwasanaeth cerdd a darparwyr addysg cerdd eraill yn eich ardal ar gael i helpu, eich cefnogi a'ch cynghori, gan weithio gyda chi a'ch staff yn y ffordd orau i'ch ysgol chi ar yr adeg hon er budd eich disgyblion.

Dangosodd astudiaethau a phrofiadau llawer o ysgolion eu hunain, bod cerddoriaeth, heblaw bod yn werthfawr yn ei hanfod fel pwnc, yn:

- paratoi plant ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm;
- gwella'r cof trwy sbarduno dau hemisffer yr ymennydd;
- cynnig cysylltedd heb ei debyg ar draws y cwricwlwm cyfan;
- cyd-fynd â gwell cynnydd mewn ystod o bynciau eraill;
- effeithlon iawn fel strategaeth i wella ysgol¹.

Wrth ffurfio'r cyfarwyddyd yn ymwneud â COVID-19 hwn, rydym wedi adolygu astudiaethau academiaidd a chyfarwyddyd y llywodraeth ar gyfer ysgolion a lleoliadau Addysg Bellach, ac rydym wedi ymgynghori â'n Haelodau, Cymdeithas yr Athrawon Cerdd, Cymdeithas y Diwydiannau Cerdd, Cymdeithas Gorfforedig y Cerddorion ac Undeb y Cerddorion, yn ogystal ag arbenigwyr yn y sector, prifathrawon ac athrawon. Mae'r ddealltwriaeth wyddonol o gerddoriaeth a COVID-19 yn datblygu

¹ Er mwyn dysgu rhagor, darllenwch [The Power of Music](#) gan yr Athro Susan Hallam MBE a [Ten Things Every School Should Know about Music](#).

yn gyson a Datgloi Cerddoriaeth yw ein dealltwriaeth orau o sut y gellir ei weithredu yn ddiogel mewn addysg statudol.

Negeseuon allweddol ar gyfer cerddoriaeth mewn ysgolion o gyfarwyddyd llyw.cymru

- Nid yw cerddoriaeth yn cael ei grybwyll yn uniongyrchol yn y cyfarwyddyd gweithredol na'r cyfarwyddyd ar ddysgu (ac nid yw Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol na ieithoedd modern o ran hynny). Ond mae'r cyfarwyddyd ar ddysgu mewn ysgolion yn nodi mewn adran dan y teitl [Profiadau dysgu eang a chytbwys](#) "Ni ddylid colli meysydd fel y celfyddydau creadigol" gan gyfeirio at ystod o sgiliau a ddatblgyir gan y pynciau hyn;
- Gall athrawon peripatetig symud rhwng ysgolion ([Canllawiau gweithredol i ysgolion o dymor yr hydref](#) Mae [cyfarwyddyd Music Mark i ddarparwyr](#) yn awgrymu cod ymarfer ar gyfer athrawon sy'n ymweld;
- Mae'r un ddogfen gyfarwyddyd hefyd yn sôn am "y rhai sy'n cyflawni clybiau cyn ac ar ôl ysgol", felly mae'r rhain hefyd yn cael eu caniatáu;
- Nid oes dim yn y canllawiau yn atal unrhyw ffurf ar gerddoriaeth fel rhan o'r cwricwlwm neu tu allan i'r cwricwlwm rhag digwydd, gan gynnwys canu a chwarae offerynnau chwyth a phres.

Llesiant

Mae'r manteision i ddisgyblion o gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol o ran eu llesiant yn hysbys. Mae gan adran gerdd Prifysgol Sheffield grŵp ymchwil penodol sy'n ymwneud â llesiant; mae llawer o ysgolion prif ffrwd ac arbennig yn ariannu sesiynau therapi cerdd ac mae cerddoriaeth yn rhan annatod o waith ieuenctid a phrosiectau iechyd meddwl. Mae'r elusen Mind wedi rhoi tudalen o'u gwefan i [fanteision cerddoriaeth o ran iechyd meddwl](#) ac mae [CanDoMusic.org](#) yn rhannu [eu blog am gerddoriaeth a llesiant meddyliol](#).

Yn ystod y cyfnod clo, mae llawer o ddarparwyr addysg wedi dod o hyd i ffyrdd creadigol o alluogi myfyrwyr a theuluoedd i barhau i gymryd rhan mewn creu cerddoriaeth. Pan fydd hynny'n bosibl, mae gwersi offerynnol a lleisiol wyneb yn wyneb wedi mynd ar-lein, ac yn amrywiol ar draws y wlad, mae miloedd o blant wedi bod yn cymryd rhan mewn chwarae a chanu, mewn gwersi wythnosol, mewn ymgynghoriadau Youth Voice ac yn syml mewn digwyddiadau cymdeithasol dan arweiniad tiwtoriaid cerdd.

Rhaid i ni beidio ag anghofio na thanbriso'r effaith y mae cerddoriaeth yn ei gael ar ein plant.

Geiriau rhiant yr oedd ei blentyn yn rhan o'r Band Factory yn Nottingham

Mae cerddoriaeth, i lawer o blant a phobl ifanc, wedi bod yn gyfrwng i fynegi a gweithio trwy effaith emosiynol y cyfnod clo, ac mae gan y pwnc botensial sylweddol i gefnogi disgyblion wrth iddyn nhw ddychwelyd i'r ysgol.

Cerddoriaeth yn y cwricwlwm

Mae llawer o ysgolion yn awyddus i ddychwelyd i fywyd arferol cyn gynted ag sy'n rhesymol ac mor ddiogel â phosibl. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a darparwyr eraill wedi llunio asesiadau risg ar gyfer eu gweithgareddau ac maen nhw'n awyddus i addasu'r rhain yn ôl amgylchiadau unigol ysgolion. Maent yn awyddus iawn i gynnig atebion i chi i leihau'r galw ar eich SLT. Mae Music Mark yn cefnogi aelodau yn y broses hon trwy ein cyfarwyddyd darparwyr a gyda chynghor uniongyrchol.

Os yw eich ysgol yn prynu (neu os dyrennir iddi) amser ar gyfer gwaith dosbarth cyfan, cwricwlwm, ensemble neu gôr, siaradwch â'r darparwyr cerddoriaeth yr ydych yn gweithio gyda nhw am y gefnogaeth y gallan nhw ei rhoi i'ch arweinwyr pwnc neu gyfnod wrth iddyn nhw geisio creu cynlluniau gwaith ac adnoddau sydd:

- yn gadarn yn gerddorol, yn flaengar ac yn werthfawr yn academiaidd;
- yn cysylltu â dysgu mewn pynciau craidd eraill;
- yn ymdrin â llesiant disgyblion ac anghenion ABAC;
- yn galluogi disgyblion i fynegi eu hunain yn rhydd;
- yn helpu disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Er mwyn helpu i greu cerddoriaeth mewn ysgolion, naill ai wedi ei gyflwyno gan eich staff chi neu gan athrawon teithiol, mae Music Mark wedi darparu cyfarwyddyd ar ganu a defnyddio offerynnau cerddorol yn ddiogel yn y dosbarth, sy'n seiliedig ar ymchwil arbenigol diweddar ac sy'n dod i'r amlwg. Bydd y darparwyr yr ydych chi'n gweithio gyda nhw yn gallu eich cynghori a chefnogi eich staff a disgyblion ar lefel fwy ymarferol, ond gellir gweld y cyfarwyddyd [yma](#) ac mae'r ymchwil y datblygwyd y cyfarwyddyd ar ei sail [yma](#).

Mae ein hymgyrch #CanDoMusic yn chwilio am gyngor ymarferol a syniadau gan athrawon eraill (ar y cyd gyda Chymdeithas Gorfforedig y Cerddorion a Chymdeithas yr Athrawon Cerdd) ac maent yn cael eu casglu a'u trefnu yn [www.CanDoMusic.org](#), y gall eich athrawon gael mynediad am ddim ato.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg cerdd yn bwriadu bod yn barod petai cyfnodau clo lleol neu genedlaethol yn dod i rym i gynnig y cyfan neu ran o'u dysgu ar-lein. Yn ystod y chwe mis diwethaf mae'r sector addysg cerdd wedi creu arbenigedd newydd a chael llawer iawn o brofiad o addysgu ar-lein. Datblygwyd neu addaswyd llawer o adnoddau a chynlluniau gwaith cyfan at y diben a bydd eich darparwyr mae'n debyg yn awyddus i ddangos sut y gallan nhw wneud i hyn weithio yn ddiogel i chi, petai angen.

Hyfforddiant offerynnol a lleisiol

Mae'r cyfarwyddyd a ddiweddarwyd ar 28 Medi 2020, yn nodi'n glir y gall athrawon peripatetig ddychwelyd i ysgolion ond deallir yn iawn, er mwyn addasu i amgylchiadau lleol, bod rhaid bod yn hyblyg. Mae fersiwn y darparwyr o'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys cod ymarfer a awgrymir a chyfarwyddyd manwl ar gyfer offerynnau gwahanol i helpu darparwyr i asesu risgiau a gweithio yn ddiogel. Er na all dim byd gymryd lle'r profiad wyneb yn wyneb gwerthfawr, bydd llawer o ddarparwyr mewn sefyllfa i drafod dulliau darparu gwahanol, gan gynnwys dewisiadau sy'n rhannol neu yn gyfan gwbl ar-lein, pan fydd hynny'n angenrheidiol.

Ensemblau a chorau

Nid oes dim yn y cyfarwyddyd i atal corau ac ensemblau rhag ailddechrau mewn ysgolion. Y cyngor i leoliadau gofal plant yw nad oes raid iddynt barhau i gadw at grwpiau o wyth ond rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer pob gweithgaredd a gofod. Argymhellir grwpiau bach, cyson ac mae Music Mark yn argymhell cadw pellter cymdeithasol ar gyfer staff a disgyblion, gan y bydd aelodaeth o grŵp bron bob amser yn tynnu disgyblion o nifer o ddsbarthiadau neu grwpiau blwyddyn, ac mae awyru addas yn allweddol i unrhyw weithgaredd sy'n creu lefelau uwch o aerosol. Mae [canllawiau darparwyr Music Mark](#) yn cynnwys cyngor ar gyfer pob math o ensemble a chôr, ar sail yr ymchwil gwyddonol a meddygol diweddaraf.

Cerddoriaeth o gwmpas yr ysgol

Mae cerddoriaeth yn creu cyfeillgarwch ac yn llunio cymuned yr ysgol: soniwyd wrth Music Mark am lawer o enghreifftiau o ddisgyblion a'r oedolion y maen nhw'n gweithio gyda nhw sy'n awchu am y cysylltiad â bywyd ysgol y mae cerddoriaeth yn gallu ei gynnig. Datblygodd llawer o ddarparwyr addysg cerdd arbenigedd mewn ffyrdd creadigol a chyffrous o rannu'r gerddoriaeth y mae disgyblion ac athrawon yn ei greu ar-lein. Mae rhai astudiaeth achos ar gael ar [wefan Music Mark](#) ac ar [CanDoMusic.org](#).

Gwnewch gerddoriaeth yn rhan o 'normalrwydd newydd' eich ysgol

Mae Music Mark yn gobeithio y bydd y bartneriaeth gyda'ch darparwyr addysg cerdd lleol, fel y gwasanaeth cerdd, yn eich helpu i sicrhau bod eich disgyblion a'r staff yn gallu cael mynediad at y manteision academaidd, llesiant a chymdeithasol sy'n deillio o fod â cherddoriaeth yn rhan o fywyd yr ysgol. Mae'r manteision yma yn allweddol wrth i blant a phobl ifanc y wlad ddychwelyd i'w dosbarthiadau ond byddant hefyd yn cryfhau ac ehangu gwerth y ddarpariaeth holistaidd yr ydych yn ei chynnig. Fe fyddem felly yn eich annog i roi cerddoriaeth yn ganolog i'ch ysgol yn awr ac i'r dyfodol.

<https://www.musicmark.org.uk/resources/music-unlocked-guidance-for-schools-and-musicproviders/>

<https://www.CanDoMusic.org>

Cydnabyddiaeth

Hoffai Music Mark ddiolch i'w Aelodau, Cymdeithas yr Athrawon Cerdd, Cymdeithas Gorfforedig y Cerddorion, Undeb y Cerddorion a Chymdeithas y Diwydiannau Cerdd am eu help a'u cefnogaeth wrth baratoi'r cyfarwyddyd hwn.